Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Gwybodaeth i Ymgeiswyr

## Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Dwyieithog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Hydref 2009**

# GWYBODAETH I YMGEISWYR

Swydd: Adolygydd Annibynnol.

Tâl: £190 y diwrnod (nad yw’n bensiynadwy). Disgwylir y bydd angen ymrwymiad o hyd at 10 diwrnod gan bob person.

Caiff costau teithio a threuliau eraill perthnasol eu had-dalu yn unol â pholisi arferol y Cynulliad Cenedlaethol.

Lleoliad: Bae Caerdydd. Efallai y bydd angen teithio rhywfaint i leoliadau eraill.

## CYFLWYNIAD

1. Fel prif sefydliad democrataidd Cymru, mae gan y Cynulliad ddyletswydd i roi gwybod i ddinasyddion ac Aelodau’r Cynulliad am y broses ddemocrataidd, yn ogystal â dyletswydd i’w galluogi i gymryd rhan yn y broses honno. Dylai wneud hynny yn newis iaith y dinasyddion a’r Aelodau – drwy’r Gymraeg neu’r Saesneg. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datgan y dylai Comisiwn y Cynulliad, wrth arfer ei swyddogaethau a chyn belled ag y bo hynny’n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn ymarferol rhesymol, ddilyn yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a’r Saesneg ar sail gyfartal (Atodlen 2, Adran 8(3)). Ym mis Gorffennaf 2007, cytunodd y Cynulliad ar Gynllun Iaith Gymraeg ar gyfer y Trydydd Cynulliad (2007-2011). Ers 2007, mae Comisiwn y Cynulliad wedi datblygu’r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gan y Cynulliad ymhellach.

2. Mae gan y Comisiwn ddyletswydd ehangach o dan y Ddeddf i ddarparu’r eiddo, y staff a’r gwasanaethau y mae eu hangen ar y Cynulliad (Adran 27(5)). Mae’r Comisiynwyr (sef y Llywydd a phedwar Aelod arall a ddewisir gan y Cynulliad) yn gyfrifol yn gorfforaethol am arfer y swyddogaethau a roddwyd i’r Comisiwn ac am lywodraethu’r sefydliad. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt weithredu er budd y Cynulliad cyfan. Swyddogaeth y Cynulliad mewn perthynas â’r Comisiwn yw ystyried ac awdurdodi’r defnydd o adnoddau y gofynnir amdanynt gan y Comisiwn, a dwyn y Comisiwn i gyfrif wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

3. Mae Comisiwn y Cynulliad eisoes yn batrwm o’r modd y gall sefydliadau ddarparu gwasanaethau dwyieithog i’r cyhoedd. Mae’r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau bod y sefyllfa hon yn parhau, a hynny drwy gryfhau’r defnydd o’r Gymraeg yng ngwaith y Comisiwn a’r Cynulliad mewn ffordd sy’n effeithiol, yn ymarferol ac yn berthnasol. Mae’r Comisiwn yn awyddus i benodi adolygwyr annibynnol i edrych ar wasanaethau dwyieithog presennol y Cynulliad ac i argymell egwyddorion ac opsiynau ymarferol a fydd yn sail i gyfeiriad y gwasanaethau dwyieithog hyn yn y dyfodol. Mae’r Comisiwn wedi

cyhoeddi y bydd yn edrych ar ffyrdd y gellir gosod darpariaeth fanwl mewn deddfwriaeth ynghylch statws y ddwy iaith ym musnes y Cynulliad.

4. Disgwylir y bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal gan grŵp bychan o bobl sydd â'r arbenigedd, y cymwysterau a'r profiad angenrheidiol a ddisgrifir ym mharagraffau 7-11.

5. Bydd Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad a'r staff perthnasol yn sicrhau bod yr adolygiad yn cael yr holl gymorth gweinyddol angenrheidiol ac unrhyw gymorth angenrheidiol gyda gwaith ymchwil.

### CYLCH GORCHWYL YR ADOLYGIAD

6. Bydd yr adolygwyr yn gwneud y canlynol:

a) ystyried sut y caiff yr holl wasanaethau dwyieithog presennol eu darparu gan Gomisiwn y Cynulliad, gan gynnwys datblygiadau mewn gwasanaethau dwyieithog ers sefydlu'r Comisiwn yn 2007, a'r cynigion a nodwyd yn natganiad ysgrifenedig Comisiwn y Cynulliad ar 30 Medi 2009;

b) ystyried barn ein prif gwsmeriaid am ein gwasanaethau dwyieithog ar hyn o bryd ac yn y dyfodol;

c) ystyried yr angen i sicrhau gwerth am arian, gan fanteisio ar arferion rhyngwladol gorau, i wneud argymhellion i'w hystyried gan Gomisiwn y Cynulliad ar ddarparu gwasanaethau dwyieithog y Cynulliad yn y dyfodol, gan gynnwys:

- cynnig opsiynau ar gyfer diffinio a chyflawni uchelgais y Cynulliad i fod yn "sefydliad gwirioneddol ddwyieithog";
- sefydlu egwyddorion a ddylai fod yn sail i'r agwedd at wasanaethau dwyieithog;
- ystyried pob math o wasanaeth, gan gynnwys er enghraifft, cyfryngau newydd a deunydd archif.

d) argymell ffordd ymlaen i'r Pedwerydd Cynulliad a thu hwnt (bydd cyfnod y Cynllun Iaith Presennol wedi dod i ben erbyn hynny).

### MANYLEB Y PERSON

### MEINI PRAWF PENODOL I'R SWYDD

7. Ynghyd â dealltwriaeth glir o waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus fodloni o leiaf un o'r meini prawf a ganlyn sy'n benodol i'r swydd. Byddant:

- yn deall sut mae cyflwyno gwybodaeth drwy amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys cyfryngau newydd, ynghyd â meddu ar brofiad o hynny;
- yn gyfarwydd â gweithrediadau dwyieithog eraill, gan gynnwys, yn ddelfrydol, yr arferion rhyngwladol gorau; neu
- yn meddu ar brofiad ar lefel strategol a phrofiad eang o arwain mewn sefydliad sy'n darparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar y cwsmer ac yn edrych tua'r dyfodol.

**SGILIAU A CHYMWYSEDDAU ALLWEDDOL**

8. Bydd gan yr unigolion yr ydym yn chwilio amdanynt y sgiliau a'r cymwyseddau allweddol a ganlyn:

   - y gallu i weithredu'n ddiduedd ac yn wrthrychol;
   - sgiliau dadansoddi a chyfathrebu cryf;
   - y gallu i gynnig atebion ymarferol y mae modd eu rhoi ar waith;
   - y bersonoliaeth a'r gallu i ennyn parch y Comisiynwyr ac Aelodau'r Cynulliad a dylanwadu arnynt.

**PWY SY'N GYMWYS**

9. Bydd ymgeiswyr nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu hystyried yn ogystal â'r rheini sy'n medru'r iaith.

10. Dylai'r ymgeiswyr fod yn bobl sydd bob amser yn ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd. Am y rheswm hwn, ni chaiff neb sydd â buddiant personol yn y materion hyn ei ystyried, na neb lle gallai ymddangos fod ganddynt fuddiant o'r fath.

11. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn ymwybodol o unrhyw beth yn eu bywydau preifat neu broffesiynol a allai ddwyn anfri ar Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru pe bai hynny'n dod yn hysbys ar ôl iddynt gael eu penodi.

**TELERAU'R PENODIAD**

12. Y bwriad yw penodi ym mis Rhagfyr 2009.

**HYD Y PENODIAD**

13. Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn cymryd hyd at 10 diwrnod gwaith ac y daw i ben ddechrau 2010

### CYMORTH I BOBL ANABL

14. Gwneir pob ymdrech i roi'r holl gymorth rhesymol posibl i unigolion os bydd angen hynny arnynt i gyflawni eu dyletswyddau.

### DETHOL YMGEISWYR

15. Bydd panel dethol yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynir gan bob ymgeisydd, a hynny ar sail y Meini Prawf Penodol i'r Swydd a Manyleb y Person. Cynhelir cyfweliadau ym mis Rhagfyr. Gobeithir penodi ym mis Rhagfyr, gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus i ddechrau gweithio ar yr Adolygiad ar unwaith.

16. Dilynir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored a phenodir ar sail teilyngdod.

### RHAGOR O WYBODAETH AC YMHOLIADAU

17. I gael rhagor o wybodaeth am y broses o wneud cais, cysylltwch â Thîm Recriwtio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 029 2089 8659 neu anfonwch e-bost i: ac.recruitment@wales.gsi.gov.uk. Os hoffech drafod y swydd mewn mwy o fanylder, cysylltwch â Craig Stephenson ar 029 2089 8230.

### GWNEUD CAIS

18. Dylid gwneud cais drwy lenwi'r ffurflen gais neu drwy anfon CV a datganiad personol sy'n rhoi tystiolaeth o sut mae ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf penodol i'r swydd a'r cymwyseddau a sgiliau allweddol a'u hanfon at:

    Y Tîm Recriwtio
    Cynulliad Cenedlaethol Cymru
    Tŷ Hywel
    Bae Caerdydd
    Caerdydd
    CF99 1NA

    Neu drwy e-bost i: ac.recruitment@wales.gsi.gov.uk

### Y DYDDIAD CAU

19. Y dyddiad cau ar gyfer anfon ceisiadau yw 15.00 ar ddydd Llun, 23 Tachwedd 2009. Ni fydd ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.